Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

Gwasanaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes

Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion

DOGFEN YMGYNGHORI

Cynnig i derfynu Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn ei ffurf bresennol a sefydlu dwy ysgol cyfrwng Cymraeg ar wahân yn ei lle ar y safleoedd presennol.



Mae fersiynau print bras ac mewn fformatau neu ieithoedd amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais

Cynnwys

		Tudalen
1.	Cefndir	2
2.	Y cynnig a'r ysgolion yr effeithir arnynt	4
3.	Effaith y cynigion ar addysgu a dysgu, lles, gofal, cymorth, arweiniad ac arweinyddiaeth	7
4.	Opsiynau sydd wedi'u hystyried	11
5.	Effeithiau'r cynnig	12
6.	Proses gyfreithiol ac ymgynghoriad	17
7.	Rhestr o Ymgyngoreion	19

Cyflwyniad

Am beth mae'r adroddiad hwn?
Mae'r ddogfen hon ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Mae'n nodi manylion y cynnig canlynol:

Terfynu Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn ei ffurf bresennol a sefydlu dwy ysgol cyfrwng Cymraeg ar wahân ar y safleoedd presennol, gan gadw'r trefniadau derbyn a'r ystodau oedran presennol, yn weithredol o 1af Medi 2028.

Cefndir ein cynnig

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel a sicrhau darpariaeth addysg gynradd ac uwchradd effeithiol ac effeithlon. Er mwyn sicrhau bod yr ysgolion cywir yn y mannau cywir ac yn darparu amgylcheddau dysgu sy'n diwallu anghenion dysgwyr yr unfed ganrif ar hugain, mae angen i'r Cyngor adolygu'n rheolaidd nifer a math yr ysgolion o fewn y Fwrdeistref Sirol, gan sicrhau bod adnoddau, cyfleusterau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.
Mae gweithredu'r Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion (RhSGY) yn cynnwys adolygu'r ddarpariaeth addysgol bresennol a phenderfynu ar nifer a math yr ysgolion sydd eu hangen i ddarparu addysg o ansawdd uchel ledled y Fwrdeistref Sirol. Disgwylir y bydd hyn yn arwain at newidiadau sylweddol dros amser, gan gynnwys sefydlu ysgolion newydd, cau ysgolion presennol, uno neu gyfuno ysgolion, ffedereiddio ysgolion a datblygu mentrau newydd sy'n hyrwyddo cydweithio rhwng ysgolion. Bydd hefyd yn cynnwys ad-drefnu darpariaeth addysgol, lle bo hynny'n briodol, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at y cymorth, y sgiliau a'r arbenigedd arbenigol sydd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol ac yn gallu manteisio'n llawn arnynt.
Mae'r Cyngor wedi adolygu'r ddarpariaeth addysgol ar sail y canlynol:

- yr angen am leoedd ysgol a hygyrchedd darpariaeth;
- safonau addysgol;
- ansawdd, addasrwydd a chynaliadwyedd adeiladau ysgolion; a

- rheolaeth ariannol effeithiol.

Yn dilyn ystyriaeth o adroddiad ar 13 Ionawr 2016, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor gynnig i sefydlu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion 3-18 oed yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol ac i ddisgyblion 11-16 oed yn ne'r Fwrdeistref Sirol. O ganlyniad, sefydlwyd Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur fel ysgol pob oed yn gweithredu ar draws campysau Ystalyfera a Bro Dur. Cyflwynwyd y trefniant hwn i leihau nifer y lleoedd gwag, mynd i'r afael â heriau yn ymwneud â llety, cynnal a chadw a hygyrchedd, a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Y bwriad oedd i'r ddau gampws weithredu o fewn un strwythur llywodraethu ac arweinyddiaeth nes bod nifer y disgyblion ar bob safle yn ddigonol i gynnal cyllidebau ysgol ar wahân a galluogi'r ysgolion i weithredu'n annibynnol.
Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ledled yr Awdurdod Lleol wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i dyfu, ac mae nifer y disgyblion sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg bellach ar ei lefel uchaf erioed yn y Fwrdeistref Sirol.

Disgyblion 3–18 oed sy’n cael addysg cyfrwng Cymraeg yn yr Awdurdod Lleol:

Tabl 1

	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025	2026
Niferoedd	3221	3293	3339	3422	3497	3499	3536	3536	3588	3666
Canrannau	15.5	15.7	15.9	16.1	16.2	16.5	16.9	17.0	17.7	18.3

Yn sgil y cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sy’n cael addysg cyfrwng Cymraeg, ynghyd â’r twf a ragwelir yn y dyfodol, mae’r sefyllfa bellach wedi datblygu i bwynt lle disgwylir y gall y ddau safle weithredu’n annibynnol o Fedi 2028.

Nod y cynnig yw ategu, gwella a datblygu ymhellach y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd eisoes ar gael yn y Fwrdeistref Sirol.

Y cynnig a’r ysgolion yr effeithir arnynt

Y cynnig yw terfynu Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn ei ffurf bresennol a sefydlu dwy ysgol cyfrwng Cymraeg ar wahân ar safleoedd presennol Ystalyfera a Bro Dur o **1 Medi 2028**. Ni fyddai'r trefniadau derbyn na'r ystodau oedran yn newid o ganlyniad i'r cynnig.

Mae Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn ysgol pob oed cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3 i 18 oed, sy'n gweithredu ar ddau safle yng Nghastell-nedd Port Talbot. Lleolir campws Ystalyfera yn Glan yr Afon, Ystalyfera, Abertawe SA9 2JJ, a champws Bro Dur yn Seaway Parade, Sandfields, Port Talbot SA12 7BL. Cymraeg yw prif iaith addysgu a dysgu'r ysgol. Mae campws Ystalyfera yn darparu addysg o'r meithrin hyd at y chweched dosbarth, tra bod campws Bro Dur yn darparu addysg uwchradd i ddisgyblion 11 i 16 oed.

Cyfanswm capasiti'r ysgol yw 1,773 o ddisgyblion, sy'n cynnwys 200 o leoedd yn y sector cynradd (gan gynnwys 20 lle meithrin rhan-amser), 680 o leoedd uwchradd ar safle'r gogledd, 650 o leoedd uwchradd ar safle'r de, a 243 o leoedd yn y chweched dosbarth.

Yn ôl cyfrifiad CYBLD 2026, mae 1,591 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol. Ar gampws Ystalyfera mae 20 o ddisgyblion meithrin, 127 o ddisgyblion cynradd, 751 o ddisgyblion 11-16 oed a 214 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae 479 o ddisgyblion 11-16 oed yn mynychu campws Bro Dur.

Bydd Canolfan Cymorth Dysgu cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer disgyblion oedran uwchradd yn agor ar gampws Ystalyfera yn 2027, gan ehangu'r ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael i ddysgwyr ledled y Fwrdeistref Sirol.

Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion amser llawn sy'n mynychu'r ysgol yn parhau i gynyddu dros y pum mlynedd nesaf, fel y dangosir yn Nhablau 2 a 3. Mae'r amcanestyniadau ar gyfer campws Bro Dur wedi'u seilio ar nifer y disgyblion cynradd presennol yng Nghastell-nedd Port Talbot a'r patrymau trosglwyddo diweddar i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Yn ystod blwyddyn academaidd 2025-26, trosglwyddodd 123% o ddisgyblion Blwyddyn 6 cyfrwng

Cymraeg yr Awdurdod Lleol i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, gan adlewyrchu'r galw cynyddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

Tabl 2

Blwyddyn	2027	2028	2029	2030	2031	2032	2033
Niferoedd disgyblion a ragwelir ar gyfer Blynyddoedd 7–11 Bro Dur	563	591	641	685	708	705	721

Nid yw'r data'n cynnwys disgyblion ychwanegol a ragwelir o'r tu allan i'r sir sy'n mynychu campws Bro Dur, gan ei bod yn anos rhagweld y rhain.

Niferoedd disgyblion a ragwelir ar gyfer campws Ystalyfera ar sail niferoedd presennol disgyblion cynradd CNPT:

Tabl 3

Blwyddyn	2026	2027	2028	2029	2030	2031	2032
Niferoedd disgyblion a ragwelir ar gyfer Blynyddoedd 7–11 Ystalyfera	771	794	838	907	910	922	939
Niferoedd disgyblion a ragwelir ar gyfer Blynyddoedd 12–13 Ystalyfera (ôl-16)	208	237	230	237	267	278	266

Mae'n anos cyfrifo rhagamcanion campws Ystalyfera na rhai Bro Dur gan fod rhai disgyblion cynradd y clwstwr yn trosglwyddo i ysgolion uwchradd y tu allan i'r Awdurdod Lleol oherwydd eu hagosrwydd at eu cartrefi, tra bo'r campws hefyd yn derbyn nifer sylweddol o awdurdodau lleol cyfagos.

Dangosir niferoedd hanesyddol y disgyblion amser llawn ar gyfer y ddau safle yn nhablau 4 a 5.

Niferoedd hanesyddol y disgyblion amser llawn ar gampws Ystalyfera:

Tabl 4

A/LI	2021/2022	2022/ 2023	2023/2024	2024/2025	2025/2026
	994	1052	1082	1064	1112

Niferoedd hanesyddol y disgyblion amser llawn ar gampws Bro Dur:

Tabl 5

A/LI	2021/2022	2022/ 2023	2023/2024	2024/2025	2025/2026
	525	500	489	493	479

Mae'r gostyngiad yn nifer y disgyblion ar gampws Bro Dur wedi adlewyrchu'r dirywiad cyffredinol ym mhoblogaeth ysgolion Castell-nedd Port Talbot dros gyfnod, tuedd a welwyd hefyd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn sgil pandemig COVID-19. Ers hynny, fodd bynnag, mae'r amcanestyniadau disgyblion a'r niferoedd trosglwyddo disgwyliedig o ysgolion cynradd clwstwr Bro Dur wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r data diweddaraf yn dangos twf cryf yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac yn rhagweld cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion a fydd yn mynychu'r campws yn y blynyddoedd i ddod.

Estyn

Arolygwyd Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur ddiwethaf gan Estyn yn 2022. Canfu'r arolygiad fod yr ysgol yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr ar draws ei dau gampws a'i bod yn hyrwyddo cynnydd, lles a datblygiad personol disgyblion yn effeithiol. Ceir crynodeb o brif ganfyddiadau'r arolygiad isod.

Perfformiad Cyffredinol

Canfu Estyn fod Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr ar draws ei dau gampws. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith ac ym mywyd bob dydd.

Lles

Canfu Estyn fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau mynychu'r ysgol. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn dangos parch at staff ac at ei gilydd, ac yn elwa ar berthnasoedd cadarnhaol a chefnogol. Mae ganddynt hefyd gyfleoedd priodol i gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol.

Gofal, Cymorth ac Arweiniad

Canfu Estyn fod yr ysgol yn darparu gofal bugeiliol effeithiol ac yn adnabod anghenion ei disgyblion yn dda. Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn briodol, ac mae disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael cymorth sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r trefniadau pontio a'r gefnogaeth a ddarperir i hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn gryfderau pellach.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Canfu Estyn fod arweinwyr wedi sefydlu ethos cyfrwng Cymraeg cryf ac yn rheoli ysgol gymhleth sy'n gweithredu ar draws dau gampws gydag ymrwymiad ac effeithiolrwydd. Mae staff yn cydweithio'n dda ac mae'r corff llywodraethu yn darparu cefnogaeth briodol i'r ysgol. Nododd Estyn hefyd gyfleoedd i gryfhau trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant ymhellach, egluro rolau a chyfrifoldebau, a datblygu'r dulliau a ddefnyddir i werthuso effaith gweithgareddau arweinyddiaeth ar ansawdd yr addysgu a chynnydd disgyblion.

Crynodeb Cyffredinol

Daeth Estyn i'r casgliad bod Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn ysgol gyfrwng Cymraeg ofalgar a chynhwysol sy'n darparu profiadau dysgu gwerthfawr ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol ar draws ei dau gampws. Nododd yr arolygiad nifer o gryfderau, gan gynnwys ymddygiad cadarnhaol disgyblion, y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir, a'r ethos Cymraeg cryf. Ymhlith y meysydd i'w datblygu ymhellach roedd gwella presenoldeb a chryfhau prosesau atebolrwydd ac arfarnu o fewn yr arweinyddiaeth.

Gellir gweld adroddiad llawn Estyn yma: Inspection report Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur 2022_0

Effaith y cynnig ar addysgu a dysgu, lles, gofal, cymorth, arweiniad ac arweinyddiaeth

Addysgu a Dysgu

Disgwylir i'r cynnig gefnogi addysgu a dysgu drwy sefydlu dwy ysgol gyfrwng Cymraeg ar wahân, gan alluogi pob ysgol i ddatblygu ei chwricwlwm, ei threfniadau staffio, ei datblygiad proffesiynol a'i blaenoriaethau gwella mewn ymateb uniongyrchol i anghenion ei disgyblion a'i chymuned ysgol. Byddai strwythurau arweinyddiaeth penodol ym mhob ysgol yn galluogi monitro a

gwerthuso safonau, cynnydd disgyblion ac ansawdd yr addysgu yn fwy effeithiol.
Byddai pob ysgol yn parhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o fewn ei hystod oedran bresennol, a byddai'r cwricwlwm llawn yn parhau i fod ar gael i ddisgyblion ar y ddau safle. Disgwylir y byddai'r trefniant newydd yn galluogi pob ysgol i gynllunio a defnyddio ei hadnoddau, ei harbenigedd a'i hamserlenni mewn ffordd sy'n adlewyrchu ei hamgylchiadau a'i blaenoriaethau lleol.

Lles, Gofal, Cymorth ac Arweiniad
Disgwylir i'r cynnig gefnogi lles disgyblion drwy alluogi pob ysgol i ddatblygu a darparu trefniadau gofal bugeiliol, diogelu, cynhwysiant a chymorth sy'n adlewyrchu anghenion penodol ei disgyblion. Byddai atebolrwydd lleol cliriach yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng yr ysgol, disgyblion, rhieni, staff ac asiantaethau partner, gan gefnogi ymyrraeth amserol a darparu cymorth mewn ffordd fwy ymatebol.
Byddai disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu ar eu safleoedd presennol ac ni fyddai'r trefniadau derbyn na'r ystodau oedran yn newid. O ganlyniad, disgwylir y byddai effaith uniongyrchol y cynnig ar brofiad dyddiol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyfyngedig. Serch hynny, byddai cyfathrebu effeithiol a chynllunio pontio manwl yn hanfodol er mwyn sicrhau parhad a chynnal lles disgyblion, teuluoedd a staff drwy gydol y broses weithredu.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth
Byddai'r cynnig yn sefydlu dau gorff llywodraethu ac arweinyddiaeth annibynnol, gyda chorff llywodraethu, pennaeth, uwch dîm arweinyddiaeth, cyllideb ddirprwyedig a chynllun strategol penodedig gan bob ysgol. Byddai hyn yn darparu atebolrwydd cliriach ac yn galluogi pob ysgol i wneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau ei disgyblion, ei staff a'i chyd-destun lleol.
Byddai cyllidebau dirprwyedig ar wahân yn gwella tryloywder wrth gynllunio a monitro gwariant, yn ogystal â chefnogi defnydd effeithiol o adnoddau. Disgwylir hefyd y byddai arweinyddiaeth annibynnol yn galluogi pob ysgol i gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer twf disgyblion yn y dyfodol a chyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor addysg cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol.
Mae'r prif ystyriaethau gweithredu yn cynnwys penodi trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu priodol, sicrhau trefniadau staffio effeithiol, cefnogi staff drwy'r

broses newid a chynnal cydweithio adeiladol rhwng y ddwy ysgol lle bo hynny'n fuddiol. Bydd angen cynllunio manwl mewn perthynas â llywodraethu, gweithlu, trefniadau ariannol a phrosesau pontio er mwyn sicrhau gweithrediad llwyddiannus.

Gwerthusiad Cyffredinol

Yn gyffredinol, disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu, lles disgyblion ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth. Byddai'n galluogi pob ysgol i ganolbwyntio'n llawn ar anghenion ei disgyblion a'i chymuned, gan ddarparu strwythurau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth sy'n gliriach ac yn fwy ymatebol.

Byddai'r safleoedd, y trefniadau derbyn a'r ystodau oedran presennol yn aros yn ddigyfnewid, tra byddai pob ysgol yn cael mwy o ymreolaeth i ddatblygu ei darpariaeth a'i blaenoriaethau strategol. Disgwylir y byddai hyn yn cefnogi datblygiad parhaus y cwricwlwm, gwella ysgolion a darparu addysg gyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel ledled y Fwrdeistref Sirol.

Byddai gweithredu llwyddiannus yn dibynnu ar gynllunio gofalus a rheoli newid effeithiol er mwyn sicrhau parhad mewn addysgu, dysgu a chymorth i ddisgyblion. Gyda'r trefniadau hyn mewn lle, disgwylir y byddai'r cynnig yn darparu model trefniadol mwy clir, mwy cynaliadwy a mwy addas i gefnogi anghenion dysgwyr a staff yn y dyfodol.

Manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig

Disgwylir i'r cynnig sicrhau ystod o fanteision sy'n cefnogi datblygiad effeithiol, cynaliadwy a hirdymor addysg cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. O'i gymharu â'r trefniadau presennol, byddai sefydlu dwy ysgol gyfrwng Cymraeg ar wahân yn darparu strwythurau llywodraethu ac arweinyddiaeth cliriach, gyda chorff llywodraethu, pennaeth, cyllideb ddirprwyedig a blaenoriaethau strategol penodedig gan bob ysgol. Byddai hyn yn cryfhau atebolrwydd ac yn galluogi penderfyniadau i gael eu gwneud yn agosach at anghenion pob cymuned ysgol, gan sicrhau bod adnoddau a blaenoriaethau'n adlewyrchu amgylchiadau lleol yn effeithiol.

Byddai'r model hwn hefyd yn cefnogi trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth mwy pendant. Gall gweithredu un ysgol ar draws dau safle sydd wedi'u gwahanu'n ddaearyddol greu heriau ychwanegol mewn perthynas â staffio,

cyfathrebu, cynllunio'r cwricwlwm, trefniadau bugeiliol a rheolaeth weithredol o ddydd i ddydd. Byddai sefydlu dwy ysgol ar wahân yn galluogi pob pennaeth ac uwch dîm arweinyddiaeth i ganolbwyntio'n llawn ar anghenion eu dysgwyr, eu staff a'u cymunedau eu hunain.

Byddai manteision posibl hefyd i ddisgyblion, rhieni a staff. Byddai pob ysgol yn gallu datblygu a chryfhau ei hunaniaeth, ei hethos a'i blaenoriaethau gwella ei hun, gan gynnal ffocws clir ar ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel. Disgwylir y byddai hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng yr ysgol, teuluoedd a'r gymuned leol, gan gyfrannu at brofiad addysgol mwy cydlynol a pherthnasol i ddysgwyr.

O safbwynt cynllunio ariannol a strategol, byddai sefydlu dwy ysgol ar wahân yn darparu trefniadau mwy tryloyw ar gyfer rheoli cyllidebau, dyrannu adnoddau a chynllunio tymor hir. Wrth i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg a nifer y disgyblion barhau i gynyddu, byddai cyllidebau ar wahân yn galluogi pob ysgol i gynllunio'n annibynnol ac yn gynaliadwy, gan gefnogi twf a datblygiad parhaus y ddarpariaeth.

Yn ogystal, byddai'r cynnig yn cefnogi amcanion ehangach Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol drwy gryfhau a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng ngogledd a de'r Fwrdeistref Sirol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn hygyrch, yn ymatebol ac yn gynaliadwy, gan ddiwallu'r galw cynyddol a'r twf a ragwelir yn y dyfodol. Y prif anfanteision posibl fyddai'r cyfnod pontio sy'n gysylltiedig â sefydlu dwy ysgol newydd, a allai greu ansicrwydd dros dro i rai disgyblion, teuluoedd a staff. Gallai'r cynnig hefyd arwain at gostau ychwanegol a gofynion gweinyddol newydd sy'n deillio o gynnal strwythurau llywodraethu, arweinyddiaeth a rheolaeth ar wahân. Yn ogystal, byddai angen sicrhau bod trefniadau effeithiol yn parhau mewn perthynas â rhannu arbenigedd, cydweithio proffesiynol a darparu cyfleoedd eang i ddysgwyr ar draws y ddwy ysgol.

Disgwylir y gellid lliniaru'r risgiau hyn drwy gynllunio gofalus a gweithredu effeithiol. Byddai hyn yn cynnwys cyfathrebu clir a rheolaidd â rhanddeiliaid, trefniadau pontio manwl, cynllunio gweithlu cadarn, trefniadau ariannol a llywodraethu priodol, a chydweithio parhaus rhwng y ddwy ysgol lle bo hynny'n fuddiol i ddisgyblion a staff.

Ar y cyfan, disgwylir i'r manteision strategol, addysgol a gweithredol sy'n deillio o sefydlu dwy ysgol gyfrwng Cymraeg annibynnol orbwyso'r anfanteision posibl, gan ddarparu sail fwy clir a chynaliadwy ar gyfer datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol.

Pa opsiynau sydd wedi'u hystyried?

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau a chyfleusterau yn y modd mwyaf effeithiol er mwyn darparu'r cyfleoedd addysgol gorau oll i blant a phobl ifanc.

Mae'r opsiynau canlynol wedi'u hystyried ar gyfer y cynnig hwn:

Opsiwn 1 – y sefyllfa bresennol – un ysgol yn gweithredu ar ddau safle
Gallai cadw un ysgol ar draws dau safle ddarparu parhad i ddisgyblion, staff a theuluoedd, gan y byddai'r trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth a gweithredu presennol yn parhau. Gallai hefyd leihau'r tarfu uniongyrchol sy'n gysylltiedig â newid strwythurol ac osgoi'r angen i sefydlu cyrff llywodraethu a threfniadau arweinyddiaeth newydd.
Fodd bynnag, gallai parhau ag un ysgol ar ddau safle sydd ar wahân yn ddaearyddol gynnal y cymhlethdodau gweithredol presennol, gan gynnwys heriau o ran gallu arweinyddiaeth, cyfathrebu, staffio, cynllunio'r cwricwlwm, rheolaeth ariannol a gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd. Gallai hefyd gyfyngu ar allu pob safle i ddatblygu ei flaenoriaethau, ei hunaniaeth a'i drefniadau llywodraethu ei hun.

Nid yw'r opsiwn hwn yn cael ei ffafrio gan swyddogion.

Opsiwn 2 – terfynu Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn ei ffurf bresennol a sefydlu dwy ysgol cyfrwng Cymraeg ar wahân yn ei lle ar y safleoedd presennol.
Byddai'r cynnig yn cefnogi llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd cliriach drwy sefydlu dwy ysgol cyfrwng Cymraeg ar wahân ar y safleoedd presennol. Byddai hyn yn galluogi pob ysgol i weithredu gyda'i chyfeiriad strategol, ei chyllideb a'i blaenoriaethau ei hun, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cyd-fynd yn agosach ag anghenion ei disgyblion, ei staff a'i chymuned leol. Byddai hefyd yn darparu strwythur mwy cynaliadwy ar gyfer rheoli twf addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

Mae'r opsiwn hwn yn cael ei ffafrio gan swyddogion.

Ansawdd adeilad a llety'r ysgol

Yn gyffredinol, mae campysau'r ysgol wedi'u graddio fel a ganlyn:

Campws Ystalyfera – gradd cyflwr A a gradd addasrwydd A
Campws Bro Dur – gradd cyflwr A a gradd addasrwydd A

Nid oes unrhyw drosglwyddo na gwaredu tir nac adeiladau yn deillio o'r cynnig ac nid oes derbyniadau cyfalaf nac arbedion costau cylchol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r cynnig.

Beth yw effaith y cynnig ar ddisgyblion a rhieni?

Byddai disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu ar eu safleoedd presennol, ac ni fyddai'r ystodau oedran na'r trefniadau derbyn yn newid. Disgwylir y byddai'r cynnig yn galluogi pob ysgol i ddarparu arweinyddiaeth, cynllunio'r cwricwlwm a chymorth bugeiliol sy'n fwy penodol i anghenion ei disgyblion a'i chymuned ysgol.
Gallai rhieni a gofalwyr elwa ar atebolrwydd cliriach, trefniadau cyfathrebu symlach a chysylltiadau cryfach â'u hysgol leol. Er y gallai'r cyfnod pontio arwain at rywfaint o ansicrwydd dros dro i rai teuluoedd, disgwylir y byddai hyn yn cael ei leihau drwy gyfathrebu amserol ac effeithiol, ymgynghori parhaus a threfniadau pontio sydd wedi'u cynllunio a'u rheoli'n ofalus.

Effaith ar y gweithlu

Bydd gan y cynnig oblygiadau i'r gweithlu gan y bydd sefydlu dwy ysgol cyfrwng Cymraeg ar wahân yn gofyn am strwythurau arweinyddiaeth, llywodraethu a staffio ar wahân i bob ysgol. Bydd angen ymgysylltu ac ymgynghori â staff drwy gydol y broses statudol, gan gynnwys ymgynghori priodol ag undebau llafur, yn unol â deddfwriaeth cyflogaeth a pholisïau cyflogaeth y Cyngor.

Effaith ar drefniadau teithio

Bydd anghenion teithio disgyblion yn cael eu hasesu yn unol â pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor. Bydd disgyblion oedran cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol neu ddisgyblion oedran uwchradd sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol yn cael eu hystyried am gymorth gyda chostau teithio.

O dan ofynion Cynllun Teithio Ysgol, mae pob ysgol, ynghyd â Thîm Diogelwch Ffyrdd y Cyngor, wedi ymrwymo i:

- gwella diogelwch ffyrdd yn y gymuned leol
- codi ymwybyddiaeth o faterion teithio
- annog cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer y daith i'r ysgol lle bo'n briodol
- annog teithio annibynnol lle bo'n briodol

Mae'r ddau gampws yn safleoedd ysgol sefydledig gyda threfniadau a llwybrau teithio presennol. Gan y byddai disgyblion yn aros ar eu safleoedd presennol, ni ddisgwylir i'r cynnig greu teithiau arferol newydd.

Effaith ar ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith andwyol ar fynediad at ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan y byddai disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu ar eu safleoedd presennol ac y byddai'r ddwy ysgol newydd yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â nodi anghenion, cynllunio darpariaeth a darparu'r cymorth a nodir yng Nghynlluniau Datblygu Unigol (CDU) disgyblion.

Disgwylir y byddai strwythurau arweinyddiaeth, cyllidebau a threfniadau cynllunio gwelliant ar wahân yn galluogi pob ysgol i ddatblygu a darparu cymorth ADY mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion ei disgyblion a'i chymuned ysgol yn fwy uniongyrchol. Gallai hyn wella gallu pob ysgol i gynllunio darpariaeth briodol, defnyddio adnoddau'n effeithiol a chydlynu mynediad at gymorth ac arbenigedd arbenigol lle bo angen.

Ar y cyfan, disgwylir i'r cynnig gynnal ac, o bosibl, gryfhau gallu'r ysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY drwy ddarparu trefniadau atebolrwydd ac arweinyddiaeth cliriach a ffocws lleol cryfach ar gynllunio a darparu cymorth.

Effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru bellach lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA). Mae'r ddogfen hon yn nodi sut mae'r awdurdod lleol yn bwriadu hyrwyddo addysgu'r Gymraeg, cynyddu nifer y plant a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar addysg cyfrwng Cymraeg drwy gryfhau darpariaeth gynaliadwy yng ngogledd a de'r Fwrdeistref Sirol. Byddai gan ysgolion ar wahân drefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth a chynllunio cliriach a byddent mewn sefyllfa well i ymateb i'r galw lleol.

Daw'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg i'r casgliad bod y cynnig yn cefnogi twf a chadernid parhaus addysg cyfrwng Cymraeg a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor. Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol ar fynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.

Effaith ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol cyfalaf uniongyrchol yn deillio o'r cynnig, gan y byddai'r ddwy ysgol yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol. Fodd bynnag, byddai sefydlu dwy ysgol ar wahân yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol weithredu gyda'i chyllideb ddirprwyedig ei hun o'r adeg gweithredu. Byddai hyn yn darparu mwy o dryloywder o ran cynllunio cyllidebau, dyrannu adnoddau a monitro ariannol ar gyfer pob safle. Byddai angen ystyried unrhyw oblygiadau refeniw sy'n gysylltiedig â threfniadau arweinyddiaeth, llywodraethu a gweithredu ar wahân fel rhan o drefniadau ariannu ysgolion y Cyngor a'u rheoli o fewn prosesau cynllunio cyllideb presennol y Gyfarwyddiaeth.

Asesiad Effaith Integredig ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cynhaliwyd asesiad effaith cam cyntaf i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau deddfwriaethol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Ystyrir y bydd y cynnig yn cael effaith niwtral ar y cyfan mewn perthynas ag oedran, hil, rhyw ac anabledd, gan y byddai'r safleoedd, yr ystodau oedran a'r trefniadau derbyn presennol yn aros heb eu newid; fodd bynnag, gallai fod effeithiau cadarnhaol i ddysgwyr os bydd y trefniadau newydd yn cryfhau arweinyddiaeth, cynllunio a chymorth, ar yr amod yr eir ati i ymdrin â hygyrchedd ac anghenion unigol drwy gydol y cyfnod pontio.

Yn dilyn Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, gan ei fod yn cefnogi twf a chynaliadwyedd parhaus addysg cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. Byddai sefydlu dwy ysgol cyfrwng Cymraeg ar wahân yn darparu trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth a chynllunio cliriach, gan alluogi pob ysgol i ymateb yn fwy effeithiol i'r galw lleol wrth gynnal a chryfhau mynediad at addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Effeithiau cyfreithiol

Mae'r cynnig hwn yn newid rheoleiddiedig sy'n gofyn am gyhoeddi'r cynnig yn statudol. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gweithredu'r cynnig. Mae gweithdrefnau'r Cyngor yn unol â'r gofynion deddfwriaethol.

Bydd trefniadau teithio disgyblion yn unol â gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008; Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr 2014; a Pholisi Teithio o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor, 2027-28.

Bydd cyllid refeniw yn unol â gofynion Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998; Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010; a fformiwla gymeradwy'r Cyngor ar gyfer ariannu ysgolion.

Effaith ar ddefnydd cymunedol

Disgwylir i'r cynnig gael effaith niwtral neu effaith gadarnhaol bosibl ar ddefnydd cymunedol oherwydd y byddai'r ddau safle a'u cyfleusterau yn parhau ar agor. Gallai arweinyddiaeth a llywodraethu ar wahân alluogi pob ysgol i ddatblygu partneriaethau lleol cryfach a theilwra mynediad cymunedol yn agosach at anghenion lleol. Byddai unrhyw darfu tymor byr a achosir gan newidiadau i drefniadau rheoli neu archebu yn cael ei liniaru drwy gynnal ymrwymiadau presennol, cyfleu newidiadau'n glir a chydlynu'r cyfnod pontio â defnyddwyr cymunedol.

Effeithiau ar Gymunedau'r Cymoedd

Bydd yr effaith ar gymunedau'r cymoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot yr un fath ag ar bob ardal arall o'r Fwrdeistref Sirol gan y bydd yr ysgolion newydd yn parhau i dderbyn disgyblion o bob rhan o'r fwrdeistref sirol, gan gynnwys cymunedau'r cymoedd.

Rheoli Risg

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddull rhagweithiol o reoli risg ac yn cydnabod bod rheoli risg yn rhan hanfodol o ddarparu llywodraethu da ac yn lleihau'r ansicrwydd ynghylch cyflawni gweledigaeth, diben a blaenoriaethau'r Cyngor, fel y'u nodir yn y Strategaeth Gorfforaethol.
Mae meysydd risg posibl wrth weithredu'r cynnig yn cynnwys:

- nad yw deilliannau addysgol disgyblion yn gwella
- nad yw'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg mor uchel â'r disgwyl
- bod nifer disgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol yn gostwng
- mwy o bryder ymhlith staff
- gwrthwynebiad i newid yn arwain at ddiffyg cefnogaeth gan ddisgyblion, rhieni a staff

Bydd methu â gweithredu'r cynnig yn golygu na chaiff ystod o fanteision eu gwireddu'n llawn. Maent yn cynnwys:

- Efallai na chaiff cynnydd tuag at Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ei gyflawni'n llawn
- Efallai na chyflawnir arweinyddiaeth a rheolaeth â mwy o ffocws ar gyfer pob safle.
- Efallai na chaiff blaenoriaethau gwella ysgol cliriach ar gyfer pob ysgol eu gwireddu.
- Gallai cynllunio cwricwlwm mwy effeithiol sydd wedi'i deilwra i bob cymuned ysgol fod yn gyfyngedig.
- Gallai'r heriau gweithredol presennol sy'n gysylltiedig â rheoli un ysgol ar draws dau safle sydd ar wahân yn ddaearyddol barhau.
- Gallai cyfleoedd i bob campws ddatblygu ei hunaniaeth, ei flaenoriaethau a'i ffocws lleol ei hun gael eu cyfyngu.
- Efallai na chyflawnir cynllunio cyllideb cliriach a mwy tryloyw ar gyfer pob safle.
- Gallai dyrannu adnoddau, monitro a rheolaeth ariannol annibynnol barhau'n gyfyngedig.
- Gallai cynllunio ariannol barhau i fod yn fwy cymhleth, gydag un gyllideb yn cwmpasu dau safle ar wahân.
- Gallai gallu pob safle i gynllunio'n gynaliadwy ar gyfer twf cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol gael ei gyfyngu.

Bydd effeithiau posibl y risgiau a nodwyd yn cael eu lliniaru drwy gynllunio manwl ar gyfer pontio, llywodraethu, y gweithlu a chyllid; ymgynghori cynnar a pharhaus; cyfathrebu clir; a chydweithio parhaus rhwng y ddwy ysgol.

Y broses gyfreithiol ac ymgynghori

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yw'r cynigydd ac mae'r Cyngor yn dymuno clywed barn pob parti â buddiant cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'i gynnig. Bydd pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei ystyried wrth wneud ei benderfyniad a chyhoeddir adroddiad ymgynghori ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori. Bydd yr adroddiad ymgynghori yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac yn cynnwys ymateb gan y Cyngor. Bydd yr adroddiad hefyd yn nodi barn Estyn ar y cynnig.

Ar ôl ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan bartïon â buddiant, os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'i gynllun bydd yn cyhoeddi cynnig statudol. Ar ôl cyhoeddi'r cynnig statudol bydd cyfnod o 28 diwrnod i ymateb yn ysgrifenedig, a elwir yn 'gyfnod gwrthwynebu'. Dim ond gwrthwynebiadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod hwn a gaiff eu hystyried. Os derbynnir gwrthwynebiadau, cyhoeddir adroddiad gwrthwynebu ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu. Bydd yr adroddiad yn crynhoi pob gwrthwynebiad ac yn darparu ymateb y Cyngor.

Sylwer: dim ond gwrthwynebiadau ysgrifenedig a gyflwynir yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol a gaiff eu hystyried. Bydd angen ailgyflwyno'n ysgrifenedig yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol unrhyw sylw a gyflwynir fel rhan o'r broses ymgynghori os yw i gael ei ystyried yn wrthwynebiad.

Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, mae'n ofynnol i'r Cyngor benderfynu ar y cynnig a bydd y mater yn mynd gerbron y Cabinet am benderfyniad. Wrth wneud ei benderfyniad, bydd y Cabinet yn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw wrthwynebiadau a godwyd ochr yn ochr â'r achos dros y cynnig. Penderfynir ar y cynnig yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2026 cysylltiedig.

Amserlen y broses

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2026.

Yn amodol ar gymeradwyaeth, bwriedir cynnal ymgynghoriad ffurfiol rhwng 2 Tachwedd 2026 a 14 Rhagfyr 2026. Bydd yr ymatebion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried.

Gwneud sylwadau ar y cynnig

Diben y ddogfen ymgynghori hon yw darparu gwybodaeth a gwahodd barn ar gynnig y Cyngor i derfynu Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn ei ffurf bresennol a sefydlu dwy ysgol cyfrwng Cymraeg ar wahân ar y safleoedd

presennol, gan gadw'r trefniadau derbyn a'r ystodau oedran presennol, o 1af Medi 2028.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch y ddogfen ymgynghori hon, cysylltwch â'r Cyngor yn y cyfeiriad isod.

Rhestr o Ymgyngoreion	
Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur: Disgyblion Rhieni / gofalwyr Staff Corff Llywodraethu Cymuned Ehangach yr Ysgol	NAASH (Fforwm Ysgolion Uwchradd)
	LLAN (Fforwm Ysgolion Cynradd)
	Fforwm CSGA
	Awdurdodau cyfagos – Abertawe/ Pen-y-bont ar Ogwr/ Sir Gaerfyrddin/ Powys/ RCT
Pob ysgol arall yng Nghastell-nedd Port Talbot	Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned cysylltiedig
Aelodau Etholedig CNPT	Is-adran Rheoli Ysgolion Llywodraeth Cymru
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol - Esgobaeth Menevia, Abertawe - Esgobaeth Llandaf, Bro Morgannwg	AS ac ASen Dros Gastell-nedd
Undebau Llafur	Aelodau Rhanbarthol o'r Senedd
Estyn	Partneriaid ADY – SNAP, Action for Children, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion (CAMHS), Pediatregydd Cymunedol Ymgynghorol, Canolfan y Plant, Ysbyty CNPT (Gwasanaethau Therapiwtig), Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, Grŵp Cymorth Anghenion Arbennig CNPT
Consortiwm Addysg Rhanbarthol (ERW)	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (gan gynnwys Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant)
Uned Drafnidiaeth Integredig CBS Castell-nedd Port Talbot	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf	Swyddogion CNPT

Ymgynghoriad
Bwriedir cynnal ymgynghoriad ffurfiol yn ystod y cyfnod: 2 Tachwedd 2026 i 14 Rhagfyr 2026.

Rhaid cyflwyno sylwadau ar y cynnig yn ysgrifenedig drwy lythyr, e-bost neu ar y ffurflen sylwadau sydd ynghlwm wrth y ddogfen hon.
Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 14eg Rhagfyr 2026. Yn anffodus, efallai na chaiff ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried.

Dylid anfon ymatebion i'r cyfeiriad canlynol: **Andrew Thomas, Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, (wedi'i farcio at sylw Tîm y Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion), Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ** neu drwy e-bost at: **SSIP@npt.gov.uk**